**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r PWYLLGOR SAFONAU ddydd Iau 14 Ionawr 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy am 2pm.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

# AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 4 Mawrth 2015**

5. **Materion yn codi**

6. **Ymgynghoriad ar Newidiadau Deddfwriaethol i'r Gyfundrefn Foesegol**

7. **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau**

8. **Ail-benodi Aelod Annibynnol (adroddiad ar lafar)**

9. **Materion Brys**

   Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**Dim**

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

**Presennol**
Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
David Morris (Dirprwy Gadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2014 eu cymeradwyo yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Bu i'r Dirprwy Glerc gadarnhau bod yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2014 wedi mabwysiadu'r holl brotocolau a gweithdrefnau a drafodwyd yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2014.

4 STANDARDS COMMITTEE ANNUAL REPORT

4.1 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol. Gofynnwyd i aelodau gymeradwyo'r adroddiad ar gyfer 2014-15.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'w gyflwyno i'r Awdurdod yng nghyfarod mis Mawrth.**

5 Y DIWEDDARAF AM FATERION MOESEGOL

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Glerc i roi diweddariad i'r aelodau am gyfraith achosion ddiweddar am y cod ymddygiad a'r canllawiau newydd a ddaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

5.2 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am achos Heesom v OGCC [2014] EWHC 1504, a oedd yn rhoi arweiniad pwysig ar y rhyngweithiad rhwng y cod ymddygiad a'r hawl i fynegiant gwleidyddol.

5.3 Wedi i'r achos ddod i ben roedd yr Ombwdsmon wedi ymgynghori hefo'r grŵp Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol ar ganllawiau diwygiedig drafft ar y cod ymddygiad. Rhannwyd y canllawiau terfynol gyda'r aelodau ac isod nodir y paragraff oedd wedi ei ychwaengu o dan y pennawd '**Trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth'.**

"*Fodd bynnag, rwy'n disgwyl i aelodau ddangos yr un cwrteisi ac ystyriaeth i gydweithwyr, gwrthwynebwyr a swyddogion â'r hyn y maent yn eu dangos i eraill yn eu bywydau bob dydd. Er fy mod yn cydnabod y gall trafodaeth wleidyddol fod yn chwyrn ar brydiau ni ddylid defnyddio'r hawl i ryddid mynegiant fel esgus dros ymddwyn yn wael yn gyffredinol. Bydd ymddygiad gwael o'r fath ond yn bwrw amheuaeth ar swyddogaeth y cynghorydd yng ngolwg y cyhoedd.*"

5.4 Nodwyd mai prin yw'r achosion o ymddygiad gwael sy'n dod yn agos at dorri'r rhan hwn o'r cod. Ar y cyd â'r weithdrefn datrys yn lleol a fabwysiadodd yr Awdurdod y llynedd, y gobaith yw datrys unrhyw faterion ond rhaid nodi mai "rhwyd ddiogelwch" isel iawn o ran ymddygiad gwael sy'n cael ei darparu gan y gyfraith erbyn hyn.

5.5 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a bod swyddogion yn adrodd yn ôl os bydd angen gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad annerbyniol.**

6 UNRHYW FATER ARALL

6.1 Cyn cloi'r cyfarfod, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau ei bod wedi mynychu cyfarfod Fforwm Safonau Gogledd Cymru, a bod y prif bwyntiau trafod yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned.

6.2 Cynhelir Cynhadledd Safonau Cymru gyfan ar 20 Hydref yng Nghaerdydd a bydd yr Ombwdsmon newydd, Nick Bennett, yn siarad yn y gynhadledd.

**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR SAFONAU**

**14 Ionawr 2016**

# YMGYNGHORIAD AR NEWIDIADAU DEDDFWRIAETHOL I'R GYFUNDREFN FOESEGOL

**Adroddiad gan Gareth Owens, Dirprwy Glerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Ymateb i'r ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar god ymddygiad enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer yr aelodau a'r gyfundrefn foesegol.

## Cefndir

2 Mewn cyfarfodydd yn Ionawr 2014 a Mawrth 2015, cafodd y pwyllgor wybod bod Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygio'r cod ymddygiad a thynnu rhai paragraffau ymaith

- 6(1) c sy'n gosod rhwymedigaeth ar aelodau i adrodd ynghylch unrhyw achosion o dorri'r cod ymddygiad

- 10(2)b sy'n creu budd personol pan fo materion ward yn gwrthdaro â dyletswydd cynghorwyr tuag at yr awdurdod.

3 Erbyn hyn, mae deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft wedi cael ei chyhoeddi gyda'r bwriad fod y newidiadau hyn, ymysg rhai eraill, yn dod i rym erbyn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol awdurdodau lleol ym mis Mai. Hefyd, cyhoeddwyd deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft ynglŷn â sefydlu pwyllgorau safonau ar y cyd, a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ymdrin â chwynion. Mae un ddogfen ymgynghori, sy'n ymdrin â'r ddau offeryn statudol arfaethedig, yn Atodiad A ac mae ymateb arfaethedig yn Atodiad B.

4 Daw'r ymgynghoriad i ben yn ffurfiol ar 10 Ionawr 2016, ac mae angen i swyddogion Llywodraeth Cymru weithredu'n gyflym ar ôl y dyddiad hwnnw er mwyn cwrdd â'r amserlen ddeddfwriaethol. Mae'r swyddogion wedi rhannu'r ymateb drafft gyda swyddogion LlC eisoes, ac maent hwythau wedi cytuno i dderbyn sylwadau terfynol y pwyllgor hwn ar yr amod y cânt eu gwneud ar yr un diwrnod â chyfarfod y pwyllgor.

**Newidiadau Arfaethedig i'r Cod Ymddygiad**

5 Byddai'r newidiadau drafft i'r cod ymddygiad yn cael yr effaith o wneud y canlynol petaent yn cael eu gweithredu:

a. Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar gynghorwyr dan 6(1)c i hysbysu'r Ombwdsmon ynghylch achosion o dorri'r cod ymddygiad; a

b. Cael gwared ar y rhwymedigaeth i ddatgan buddiant pan fo dyletswyddau ward yn ymddangos fel petaent yn gwrthdaro ag ymrwymiad cynghorydd i'r awdurdod dan 10(2)b o'r cod; ac

c. Gwneud darpariaeth i gynghorwyr tref a chymuned hysbysu eu clerc (yn hytrach na'r swyddog monitro) am (newidiadau i) eu cofrestr buddiannau; a

d. Mewnosod y cyfeiriad statudol cywir yn yr eithriad ym mharagraff 12(2)(b)iv caniatáu i aelodau bleidleisio ar faterion sy'n effeithio ar eu lwfansau.

6 Mae dwy broblem bosibl gyda'r newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth. Yn gyntaf, mae'r ddeddfwriaeth yn cael gwared yn syml ar y rhwymedigaeth i hysbysu'r Ombwdsmon am achosion o dorri'r cod, ond hefyd yn cadw'r gofyniad i hysbysu'r Swyddog Monitro am achosion a amheuir o dorri'r cod. Nid yw'r Swyddog Monitro'n gallu ymchwilio i achosion o dorri'r cod oni bai fod yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r rheini ato. Ac nid unrhyw ddyletswydd statudol ar y Swyddog Monitro ychwaith i gyfeirio cwynion at yr Ombwdsmon ac mae rhesymau ymarferol da pam na ddylid gosod rhwymedigaeth o'r fath. Felly, byddai'r newidiadau arfaethedig yn creu rhyw fath o ddryswch sydd angen ei ddatrys.

7 Yn ail, gallai cael gwared ar y gofyniad i ddatgan buddiant dan baragraff 10(2)b fod yn broblemus i'r awdurdod tân. Fel y gwneir yn glir gan yr ymateb i'r ymgynghoriad, gall penderfyniadau ynghylch adnoddau fod yn dadleuol iawn yn lleol a gall y rhwymedigaeth i ddatgan buddiant fod yn gymorth i sicrhau bod y penderfyniadau angenrheidiol yn dal i gael eu gwneud. Mae cael gwared ar 10(2)b yn cael ei wrthbwyso gan y gofyniad presennol yn y cod (paragraff 8) i ystyried cyngor swyddogion a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd ar sail tystiolaeth. Yn genedlaethol, mae'r ombwdsmon wedi gwneud dehongliad cul o'r ddarpariaeth hon (10(2)b), a hefyd mae corff proffesiynol swyddogion monitro, sef Cyfreithiwr mewn Llywodraeth Leol, wedi gwneud sylwadau i geisio cael gwared ar y paragraff.

## Newidiadau arfaethedig i'r Gyfundrefn Foesegol

8 Mae deddfwriaeth ddrafft wedi cael ei chyhoeddi hefyd, ac mae'n cynnig y newidiadau a ganlyn i'r gyfundrefn foesegol yn ehangach:

a. Gallu cynghorau sir ac awdurdodau tân i sefydlu Pwyllgorau Safonau ar y cyd;
b. Diffinio cyfnod swydd aelodau o Bwyllgorau Safonau sy'n gynghorwyr fel un cyfnod cyfan ar y cyngor (h.y. tan yr etholiadau arferol nesaf) gyda'r posibilrwydd o wasanaethu am 1 cyfnod ychwanegol yn unig;
c. Caniatáu ar gyfer atgyfeirio cwynion i Bwyllgor Safonau arall pan fo gwrthdaro rhwng buddiannau;
d. Caniatáu ar gyfer atgyfeirio cais am oddefeb i Bwyllgor Safonau arall pan fo gwrthdaro rhwng buddiannau;
e. Caniatáu i'r adroddiad ar gamymddygiad honedig aelod gael ei gadw'n gyfrinachol hyd oni fydd unrhyw wrandawiad wedi dod i ben;
f. Egluro na all cyfnod atal a osodir ar gynghorydd fynd y tu hwnt i ddiwedd cyfnod y cyngor;
g. Ei gwneud yn ofynnol i aelod sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlys achos gael caniatâd blaenorol Llywydd Panel Dyfarnu Cymru;

h. Ymestyn y pŵer i ganiatáu goddefeb pan ymddengys i'r pwyllgor fod gwneud hynny er lles trigolion yr ardal, gyda phŵer cyffredinol i ganiatáu goddefeb. Y bwriad yw caniatáu i Bwyllgor Safonau ganiatáu goddefeb yn yr ystafell wrth drafod eitem y mae gan aelod fuddiant rhagfarnol ynddi a phryd y mae anabledd gan aelod, a fyddai'n ei gwneud yn ymarferol iddo adael.

9 Eto, byddai'r cynigion yn ymddangos fel petaent yn cyflawni'r bwriadau a fynegwyd y tu ôl i'r ddeddfwriaeth. Ond mae'r swyddogion o'r farn y dylid, yn hytrach nag egluro'r ddeddfwriaeth i gyfyngu ar ataliad i ddiwedd cyfnod cynghorydd yn ei swydd, wneud darpariaeth i unrhyw gyfnod atal sydd heb ddod i ben barhau os yw cynghorydd yn cael ei ailethol.

**Argymhelliad**

10 Bod yr ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad sydd yn Atodiad B yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Deddf Llywodraeth Leol 2000 – Rhan III, Ymddygiad Aelodau Llywodraeth Leol

## Diwygio Is-ddeddfwriaeth

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | | |
|---|---|---|
| **Teitl** / **Enw** | Gareth Owens, Dirprwy Swyddog Monitro | |
| **Sefydliad** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | |
| **Cyfeiriad** | Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>LLANELWY LL17 0JJ | |
| **Cyfeiriad e-bost** | | |
| **Math** (ticiwch un o'r canlynol) | Cyngor Sir / Bwrdeistref Sirol | |
| | Cyngor Cymuned neu Dref | |
| | Awdurdod Tân ac Achub | ✓ |
| | Awdurdod Parc Cenedlaethol | |
| | Pwyllgor Safonau | |
| | Corff cynrychioli llywodraeth leol | |
| | Corff sector cyhoeddus | |
| | Corff sector gwirfoddol / y trydydd sector | |
| | Corff cynrychioli'r sector gwirfoddol / y trydydd sector | |
| | Corff proffesiynol | |
| | Busnes | |
| | Unigolyn preifat | |
| | Arall (nodwch): | |
| Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gyhoeddi'n ddienw: | | |

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) Drafft**

*Cofrestr o Fuddiannau Aelodau*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.1** | A oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau eraill i'r Cod Enghreifftiol er mwyn rhoi darpariaethau Deddf 2013 ar waith yn ymarferol? | **Oes** | **Nac oes** |
| | | | ✓ |
| **Sylwadau:** | | | |

*Rhwymedigaeth i Adrodd Achosion Posibl o Weithredu'n Groes i'r Cod*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.2** | A ydych chi'n cytuno er bod y rhwymedigaeth ar aelodau i adrodd achosion posibl o dorri'r Cod wrth yr Ombwdsmon yn cael ei dileu, y dylid cadw'r rhwymedigaeth i adrodd achosion o'r fath o dorri'r Cod i'r swyddog monitro perthnasol? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | | ✓ |

**Sylwadau:**
Nid oes rhwymedigaeth ar swyddogion i adrodd neu atgyfeirio achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad i'r Ombwdsmon, a gallai danseilio parodrwydd aelodau i geisio cyngor petai dyletswydd o'r fath yn cael ei gosod. Felly, bydd cadw'r rhwymedigaeth i adrodd ynghylch achosion o dorri'r cod ymddygiad i'r Swyddog Monitro yn creu dryswch a diffyg eglurder. Byddai'n well petai'r rhwymedigaeth yn cael ei dynnu ymaith yn llwyr gan adael yr aelod i ddewis a yw am ymdrin â'r achos honedig o dorri'r cod ai peidio.

Yn Lloegr, rhan o'r rhesymeg dros rwymedigaeth debyg i adrodd achosion a amheuir o dorri'r cod oedd darparu rhyw fath o amddiffyniad i aelod sy'n adrodd ynghylch unrhyw beth. Y ddamcaniaeth yw y gallai'r aelod ei hun gael ei gosbi am beidio ag adrodd ynghylch y mater, a thrwy hynny dynnu unrhyw elfen o ddewis ac felly unrhyw euogrwydd am "achwyn ar rywun". Cafodd y rhwymedigaeth hon ei newid yn ddiweddarach yn ofyniad i beidio â chosbi neb am hysbysu ynghylch achos a amheuir o dorri'r cod, ond gellid dilyn dull tebyg os teimlid bod angen hynny.

*Buddiannau Etholaeth*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.3** | A ydych chi'n cytuno bod hepgor paragraff 10(2)(b) yn mynd i'r afael yn briodol â'r anawsterau y daethpwyd ar eu traws wrth weithredu'r agwedd hon ar y Cod yn ymarferol? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | | ✓ |
| **Sylwadau:**<br><br>Er gwaethaf y rhwymedigaeth ym mharagraff 8 i wneud penderfyniadau'n ddiduedd ac ar sail tystiolaeth, bu'r rhwymedigaeth hon o fudd i'r awdurdod tân lle mae penderfyniadau anodd ynghylch adnoddau'n gallu bod yn hynod emosiynol ar lefel leol. Felly gall cau gorsaf dân, er enghraifft, fod yr ateb gorau er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac effeithlon ond bydd hynny'n sicr o ddenu gwrthwynebiad enfawr yn lleol. | | | |

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) Drafft**

**Diwygiadau i Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001**

*Cyd-bwyllgorau Safonau*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.4** | A oes angen unrhyw ddiwygiadau pellach i hwyluso'r gwaith o sefydlu a gweithredu cydbwyllgor safonau? | **Oes** | **Nac oes** |
| | | | ✓ |
| **Sylwadau:** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.5** | A ydych chi'n cytuno nad oes angen cynyddu'r nifer uchaf o aelodau a ganiateir mewn cydbwyllgor? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | ✓ | |
| **Sylwadau:** | | | |

*Aelodau Awdurdod Lleol o Bwyllgorau Safonau – Cyfnod Swydd*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.6** | A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r newid arfaethedig i gyfnod swydd aelodau awdurdod lleol o bwyllgorau safonau (os oes, rhowch sylwadau isod)? | **Oes** | **Nac oes** |
| | | | ✓ |
| **Sylwadau:** | | | |

*Cyhoeddi Adroddiadau Camymddwyn - Eithriad*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.7** | A yw'r newidiadau arfaethedig yn mynd i'r afael yn briodol ac yn ddigonol â'r problemau sydd wedi codi yn sgil cyhoeddi adroddiadau ar gamymddwyn cyn gwrandawiadau pwyllgorau safonau? | **Ydynt** | **Nac ydynt** |
| | | ✓ | |
| **Sylwadau:** | | | |

**Diwygiadau i Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001**

*Atgyfeirio Achosion o Gamymddwyn*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.8** | A yw'r cynigion hyn yn gwneud darpariaeth ddigonol a phriodol i atgyfeirio adroddiadau camymddwyn i bwyllgor safonau awdurdod arall? | **Ydynt** | **Nac ydynt** |
| | | ✓ | |
| **Sylwadau:** | | | |

*Cyfnod Atal*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.9** | A ydych chi'n cytuno na ddylai aelod gael ei atal gan bwyllgor safonau am fwy o amser nag sy'n weddill o gyfnod ei swydd? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | | ✓ |
| **Sylwadau:** Mae cynghorwyr yn aml yn cael eu hailethol er eu bod wedi torri'r cod. Yn wir, mae rhai o'r cynghorwyr sydd wedi cyflawni'r achosion mwyaf dybryd o dorri'r cod yn portreadu'r cod fel rhywbeth sy'n amharu ar eu hymdrechion i wasanaethu'r gymuned ac yn gwisgo'r gosb fel bathodyn balchder. Ni fyddai'n iawn i gynghorydd gael llai na'r cyfnod atal priodol dim ond am fod gwrandawiad yn digwydd cael ei gynnal toc cyn etholiad. Felly, os yw cynghorydd sydd wedi'i atal yn cael ei ailethol, dylid gwneud darpariaeth i unrhyw gyfnod atal sydd heb ddod i ben gymryd effaith yng nghyfnod newydd y cyngor. | | | |

*Apelio i Banel Dyfarnu Cymru*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.10** | A ydych chi'n cytuno bod y weithdrefn arfaethedig ar gyfer gwneud cais am ganiatâd i apelio dyfarniad pwyllgor safonau yn briodol? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | ✓ | |
| **Sylwadau:** | | | |

**Diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001**

*Atgyfeirio Ceisiadau am Ollyngiadau*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.11** | A ydych chi'n cytuno bod y weithdrefn arfaethedig ar gyfer atgyfeirio cais am ollyngiad i bwyllgor safonau awdurdod arall yn briodol? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | ✓ | |
| **Sylwadau:** | | | |

*Meini Prawf ar gyfer Caniatáu Gollyngiadau - Anabledd*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.12** | A ydych chi'n cytuno ei bod hi'n briodol darparu categori o ollyngiadau cyffredinol yn y Rheoliadau? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | ✓ | |
| **Sylwadau:** | | | |

*Gollyngiadau – Diwygiadau Eraill*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C.13** | A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau hyn yn briodol? | **Ydw** | **Nac ydw** |
| | | ✓ | |
| **Sylwadau:** | | | |

**Arall**

| | |
|---|---|
| **C.14** | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi sôn amdanynt yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i ysgrifennu amdanynt. |
| **Sylwadau:**<br><br>Cyflwynwyd y sylwadau ar ran Pwyllgor Safonau ATAGC ac dilyn ystyriaeth ganddo. | |

**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR SAFONAU**

**14 Ionawr 2016**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r adroddiad drafft atodol a gaiff ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Mawrth.

## Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

## Argymhelliad

4 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma'r unfed adroddiad ar ddeg gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2015 hyd fis Mawrth 2016. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Mae cyfnod swydd A P Young ar y pwyllgor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016. Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

Mae Mr Young wedi cadarnhau ei fod yn fodlon cael ei ail-benodi ac fe gyflwynir y cynnig hwn i'r Awdurdod ym Mawrth 2016.

Felly, mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

Aelodau annibynnol
Celia Blomeley 01/01/2014 - 31/12/17
Jane A Eyton-Jones 01/01/2014 - 31/12/17
David Morris 01/09/14 - 31/08/18
Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub
Y Cynghorydd Brian Dunn (18/06/12 ymlaen)
Y Cynghorydd Jim G Evans (18/06/12 ymlaen)

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 14 Ionawr 2016 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cyng Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint.

Yn y cyfarfod hwnnw, cafodd yr aelodau ddiweddariad am newidiadau deddfwriaethol i'r gyfundrefn foesegol. Nodwyd fod deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft ar gyfer ymgynghoriad wedi'i chyhoeddi gyda'r bwriad fod y newidiadau hyn, ymysg rhai eraill, yn dod i rym erbyn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol awdurdodau lleol ym mis Mai. Hefyd, cyhoeddwyd deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft ynglŷn â sefydlu pwyllgorau safonau ar y cyd, a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ymdrin â chwynion. Cymeradwywyd ymateb ar ran yr Awdurdod a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni fu cwyn ynglyn ag aelod o'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18fed Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawliau cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliau. Talwyd costau teithio o ?? i'r aelodau annibynnol.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.